

Triniaeth cam cyntaf babanod y mae ochr chwith eu calon heb ddatblygu'n ddigonol drwy lawdriniaeth mynediad lleiaf (triniaeth hybrid)

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth mynediad lleiaf ('triniaeth hybrid') yn y GIG i drin babanod newydd-anedig y mae ochr chwith eu calon heb ddatblygu'n ddigonol. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgôp i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu rhieni neu warcheidwiad y cynigiwyd y driniaeth hon i'w babanod fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio calonnau heb eu datblygu'n ddigonol na'r driniaeth hybrid yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chynghor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes llawer o wybodaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hybrid yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg yn awgrymu'r driniaeth hybrid, dylai sicrhau y cymerir camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd am y driniaeth, ei risgiau posibl a'r angen am driniaethau pellach. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r rhiant neu'r gwarcheidwad gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth hybrid. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall iddynt fel rhan o'r drafodaeth.

Mae NICE wedi dweud y dylid gwneud trefniadau arbennig hefyd ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd ar ôl y driniaeth. Yn ogystal, dim ond mewn unedau ysbyty sy'n arbenigo mewn trin babanod y mae ochr chwith eu calon heb ei ddatblygu'n ddigonol y dylid cynnal y driniaeth hon.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bob baban a gaiff y llawdriniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i storfa wybodaeth ganolog, sef y Gronfa Ddata Ganolog ar gyfer Archwiliadau Cardiaidd yn y DU (www.ccad.org.uk) er mwyn gallu archwilio diogelwch y driniaeth a/neu pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

Mae NICE hefyd wedi dweud y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth bellach am ba fabanod y dylid eu dewis ar gyfer y driniaeth hybrid a pha rannau o'r driniaeth hybrid a gyflawnir gyda'i gilydd sy'n fwyaf effeithiol.

*Efallai nad hon
yw'r unig driniaeth
bosibl ar gyfer trin
babanod newydd-
anedig y mae eu
calon heb
ddatblygu'n
ddigonol. Dylai
eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch p'un a
yw'n addas i'ch
babi a pha
opsiynau triniaeth*

Y driniaeth hybrid

Ni chaiff y driniaeth hybrid ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Pan gaiff baban ei eni gydag ochr chwith y galon heb ei datblygu'n ddigonol, ni all ochr chwith y galon lenwi â'r gwaed sy'n llawn ocsigen o'r ysgyfaint na'i bwmpio o amgylch y corff. Yn hytrach, gorfodir y gwaed yn ôl i'r ochr dde drwy dwll bach sy'n cysylltu dwy ochr y galon. O'r fan honno, dim ond drwy osgoi'r ysgyfaint y gall gwaed gyrraedd gweddill y corff drwy ddwythell fach sy'n cysylltu'r prif bibellau o bob ochr y galon (y 'ductus arteriosus'). Mae'r ddwythell hon yn arferol cyn genedigaeth ond fel arfer mae'n cau yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl genedigaeth. Unwaith i'r ddwythell gau, mae babanod y mae ochr chwith eu calon heb ddatblygu'n ddigonol yn debygol o farw o fewn yr ychydig wythnosau cyntaf o'u bywydau.

Mae'r cam cyntaf o driniaeth safonol yn llawdriniaeth agored gymhleth, risg uchel ar y galon syn cynnwys peiriannau dargyfeiriol calon—ysgyfaint, a gyflawnir yn fuan ar ôl yr enedigaeth (a elwir y 'driniaeth Norwood').

Mae'r driniaeth hybrid yn ddewis amgen sy'n osgoi llawdriniaeth agored fawr ar y galon nes bod y claf yn hŷn. Mae'n cynnwys dwy ran neu dair y gellir eu cyflawni gyda'i gilydd neu ar wahân. Cyflawnir dwy ran drwy'r pibellau gwaed fel arfer ('radioleg ymyrraeth') ac mae'n cynnwys twll yn y croen ar gyfer mynediad. Mae'r cyntaf yn gwella'r llif gwaed i ochr dde'r galon drwy ehangu'r twll yn y wal rhwng yr ochr dde ac ochr chwith y galon, tra bod yr ail yn atal y ddwythell rhag cau drwy ddefnyddio pibell ymestynnol (a elwir yn 'stent'). Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn galluogi ochr dde'r galon i bwmpio gwaed o amgylch y corff yn haws. Mae trydedd ran y driniaeth hybrid yn cynnwys gosod bandiau tynn o amgylch y rhydweliâu sy'n cludo'r gwaed o ochr dde'r galon i'r

ysgyfaint (y 'rhydweiliau pwlmonaidd'). Mae'r rhain yn hybu llif gwaed pellach drwy'r ddwythell i'r corff. Gellir gwneud y rhan hon drwy lawdriniaeth agored ar y frest neu lawdriniaeth twll clo, ond nid oes angen llawdriniaeth ddargyfeiriol y galon a'r ysgyfaint. Nid oes angen y tair triniaeth ar bob baban.

Bydd angen cyflawni triniaethau pellach (a elwir yn gamau 2 a 3) ar ôl y driniaeth Norwood neu hybrid, dros dair blynedd neu fwy. Efallai y bydd angen triniaethau pellach ar y claf neu drawsblaniad calon yn ddiweddarach yn ei fywyd.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi a'm baban?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hybrid i'ch baban, dylai ddweud wrthy'ch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw'r risgiau? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen ar fy maban ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth allai ddigwydd os na fydd fy maban yn cael y driniaeth?

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar bum astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 58 o fabanod a gafodd driniaeth hybrid, goroesodd 54 y driniaeth. Yn yr astudiaeth hon, aeth 52 o fabanod ymlaen i gael llawdriniaeth cam 2, a goroesodd 46 ohonynt. Mewn astudiaeth arall o 29 o fabanod, goroesodd 18 y driniaeth hybrid ac aethant ymlaen i gael llawdriniaeth cam 2. Mewn astudiaeth lai o 14 o fabanod, goroesodd 8 i gael llawdriniaeth cam 2 ac roedd 6 yn fyw o hyd ar ôl yr ail driniaeth. Nodwyd dwy farwolaeth rhwng y driniaeth hybrid a llawdriniaeth cam 2.

Mewn astudiaeth o 17 o fabanod a gafodd driniaeth hybrid, goroesodd 15 y driniaeth. O'r rhain, roedd angen trawsblaniad calon ar 10 ohonynt a bu farw 4 cyn iddynt gael triniaeth bellach.

Rhoddodd astudiaeth arall adroddiad ar 5 o fabanod a gafodd y driniaeth hybrid ac 17 a gafodd y driniaeth Norwood safonol.

Goroesodd pob un o'r 5 o fabanod a gafodd y driniaeth hybrid, ond bu farw 2 ohonynt cyn iddynt gael llawdriniaeth cam 2. Goroesodd 11 allan o'r 17 o fabanod a gafodd y driniaeth Norwood i ddechrau, a bu farw un yn ddiweddarach.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr ei bod yn anodd dweud pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio gan mai dim ond niferoedd bach o fabanod sydd wedi cael y driniaeth. Nododd un cynghorydd nad oedd llawer o wybodaeth am ba mor dda y mae'r driniaeth hybrid yn gweithio yn yr hirdymor, o'i chymharu â'r llawdriniaeth agored safonol fwy cymhleth ar y galon.

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 158

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 58 o fabanod, bu farw dau o fewn 30 diwrnod i'r driniaeth, ac yn yr astudiaeth o 29 o fabanod, bu farw pump tra eu bod yn dal i fod yn yr ysbyty. Yn yr astudiaeth o 17 o fabanod a gafodd y driniaeth hybrid, cafodd 6 gymhlethdodau gyda'r bandiau a ddefnyddiwyd i gulhau'r rhydweliâu pwlmonaidd. Mewn dau faban rhwystrowyd y rhydweli'n gyfan gwbl, ac mewn dau arall roedd y cyfyngiad i'r llif gwaed yn ormod.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod cymhlethdodau posibl y driniaeth hybrid yn cynnwys marwolaeth, niwed i'r ymennydd, gwaedu, haint, methiant y galon, y stent yn symud, rhwystro neu gulhau, y bandiau'n symud a niwed i'r rhydweliâu pwlmonaidd neu'r ddwythell.

Rhagor o wybodaeth am fabanod â chalonnau heb eu datblygu'n ddigonol

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Triniaeth hybrid ar gyfer rheoli syndrom calon chwith hypoblastig dros dro mewn babanod newydd-anedig'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/guidance/HTG158

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon drwy Linell Ymateb y GIG (ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y cyfeirnod N1538).

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7801-4

N1538 1P Dec 07

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2007. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.